



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb y Gweithlu

Cyfnod Adrodd 1 Ebrill 2019-31 Mawrth 2020

CYFLWYNIAD

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Strategaeth y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd, 2020-2030. Mae'r strategaeth hon yn cadarnhau ein bwriad i sefydlu'r Bwrdd Iechyd i fod yn sefydliad cynhwysol. Ystyr cynwysoldeb yw gofalu bod lleisiau ein holl bobl yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, gan sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd ac adnoddau ar gyfer pobl a allai fel arall gael eu heithrio neu fod ar yr ymylon. Bydd hyn nid yn unig yn helpu i ddenu a chadw'r bobl orau i ffurfio ein gweithlu, ond bydd hefyd yn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn lle gwych i bobl weithio ynddo. Mae angen i ni symud y tu hwnt i sicrhau cydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth, sydd, yn y pen draw, yn ymwneud â'r modd yr ydym yn adeiladu ein sefydliad ag unigolion talentog o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Ar 4 Gorffennaf 2019, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei gynhadledd gyntaf ar gyfer y staff, a hynny mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gyda'r themâu yn cynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle. Diben y gynhadledd oedd meithrin ymwybyddiaeth o amrywiaeth y staff er mwyn egluro manteision gweithlu amrywiol a phwysigrwydd chwalu rhwystrau a chefnogi staff i fod y gorau y gallant fod. Roedd y gynhadledd yn dangos cyfeiriad y daith er mwyn i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb y Gweithlu yn rhoi cyfle i ni adolygu ein data ystadegol er mwyn helpu i adnabod nodau a chamau gweithredu cadarnhaol y byddwn am eu rhoi ar waith, o bosibl, i gefnogi aelodau o'n gweithlu, yn unol â'u nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr adroddiad hwn yn helpu i egluro "bywyd yn Hywel Dda" ledled y grwpiau gwarchoddedig ac i sicrhau sylfaen gadarn i adeiladu arni y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Mae'n amlygu cam ymlaen o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd nodau a chamau cadarnhaol yn cael eu cyflawni dros amser, ac nid o reidrwydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd hyfforddiant a meithrin ymwybyddiaeth ym meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn nod allweddol, sy'n cynnwys cynyddu ein cyfradd cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar-lein.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar y grwpiau nodweddion gwarchoddedig, rydym wedi cynnwys dadansoddiad o Sgiliau Cymraeg ein gweithlu. Un o nodau ein strategaeth Sgiliau Dwyieithog yw hwyluso'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, mae yna gynnydd sylweddol o ran y disgwyliad ar gyfer hawl staff i gael gwasanaethau o fewn ein trefniadau gweinyddol mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym am i'n holl gyflogeion, ni waeth beth yw eu hunaniaeth, diwylliant neu gefndir, gael y profiad cyflogaeth gorau posibl yn Hywel Dda. Mae dadansoddi gwybodaeth gadarn am broffil ein gweithlu, o leiaf unwaith y flwyddyn, yn allweddol wrth symud yr agenda bwysig hon yn ei blaen.

Cafodd yr wybodaeth a gofnodwyd ac yr adroddwyd arni yn yr adroddiad ei thynnu o ddata a gadwyd yn rhan o Wybodaeth Busnes y Cofnod Staff Electronig (cronfa ddata adrodd ESRBI) ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020. Anogir cyflogeion i ddefnyddio Hunanwasanaeth y Cofnod Staff Electronig i gynorthwyo'r gwaith o gasglu gwybodaeth fwy cyflawn a chywir. Cydnabyddir bod staff yn cadw'r hawl i wrthod y cyfle i lenwi gwybodaeth monitro data

cydraddoldeb, ac er ein bod yn gwneud ymdrech i annog staff i'w llenwi, ni fyddir yn gwneud hyn yn orfodol. Felly, gwyddom nad yw ein ffigurau, o bosibl, yn adlewyrchu'r darlun demograffig llawn o'n gweithlu, yn arbennig ar gyfer gwybodaeth bersonol sensitif.

Er mwyn asesu'r canrannau yr adroddwyd arnynt yn ystod y cyfnod hwn, defnyddiwyd hefyd ganrannau cymharol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2019. Wrth gynnal y gymhariaeth, dylid hefyd nodi y bydd hyn yn dangos effaith ar ystadegau'r nodweddion gwarchoddedig, a hynny o ganlyniad i'r newid yn y cyfrif pennau. Roedd y cyfrif pennau ar 31 Mawrth 2020 yn 11,586 o gymharu ag 11,006 ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn gynydd o 580 o gyflogeion. Y cyfrif pennau yw cyfanswm nifer y staff sy'n cael eu cyflogi'n gyflogeion ac yn weithwyr gan y Bwrdd Iechyd, ac maent yn cynnwys gweithwyr Banc a gweithwyr Locwm.

At ddiben y cymharydd poblogaeth, cymerwyd yr wybodaeth o Gyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r ddemograffeg ar gyfer rhanbarth Hywel Dda ar gael ar wefan yr ONS (www.ons.gov.uk), ac mae'r wybodaeth a geir ym mhrif gorff yr adroddiad hwn yn darparu cymhariaeth o nodweddion gwarchoddedig yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Cyflwynir yr wybodaeth ystadegol ganlynol yn unol â phob nodwedd warchoddedig. Darperir hefyd grynodeb naratif o'r casgliadau y daethpwyd iddynt o'r wybodaeth ystadegol. Gyda'i gilydd, mae hyn yn rhoi eglurhad o brofiad y staff yn BIP Hywel Dda yn ôl grŵp gwarchoddedig.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod angen gwneud rhagor o waith i ddadansoddi effaith croestoriadoldeb ar draws nifer o grwpiau gwarchoddedig, h.y. y modd y mae'r ystadegau yn cymharu (ac felly y modd y gall profiadau fod yn wahanol) rhwng, er enghraifft, dynion hoyw gwyn a dynion hoyw BAME, neu gyflogeion anabl benywaidd a chyflogeion anabl gwrywaidd.

At ddiben cymharydd poblogaeth ardal Hywel Dda, dylid nodi fod nifer o benodiadau yn cael eu gwneud o'r tu allan i ardal Hywel Dda (gan gynnwys tramor), sy'n golygu ei bod yn fwy heriol dod i gasgliadau ynghylch proffil ein gweithlu ein hun o gymharu â phroffil y boblogaeth gyffredinol yn yr ardal.

1.0

OEDRAN

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r casgliadau y daethpwyd iddynt wrth ddadansoddi ystadegau'n ymwneud ag oedran, ynghyd ag amlinelliad o'r nodau bwriadedig a'r camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Casgliadau yn dilyn dadansoddi'r data:

- O gymharu â 31 Mawrth 2019, roedd canran y staff a oedd yn nodi eu bod yn y proffil oedran 54 neu iau wedi gostwng 0.26% erbyn 31 Mawrth 2020.
- Mae'r proffiliau oedran ar gyfer oedrannau 55 a hŷn wedi cynyddu 0.26% ar gyfer y cyfnod.
- Mae'r cyflog blynyddol cyfartalog ar ei isaf ar gyfer y grŵp oedran o dan 20 oed. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod aelodau iau o'r gweithlu yn dechrau ar eu gyrfaoedd ar fandiau cyflog is.

- Mae % y swyddi a gynigir i ymgeiswyr dros 60 yn is nag ar gyfer y grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, gwnaed 109 o gynigion cyflogaeth i ymgeiswyr dros 60 oed.
- Nid yw proffil oedran y rheiny sy'n gadael cyflogaeth Hywel Dda yn cyd-fynd â phroffil y gweithlu. Er enghraifft, roedd 16.65% o'r ymadawyr yn y grŵp oedran 25-29, o gymharu â 10.34% o'r gweithlu sy'n perthyn i'r grŵp oedran hwn. Roedd 6.66% o'r ymadawyr yn y grŵp oedran 45-49, o gymharu ag 13.50% o'r gweithlu sy'n perthyn i'r grŵp oedran hwn. Roedd 17.07% o'r ymadawyr yn y grŵp oedran 55-59, o gymharu â 12.10% o'r gweithlu sy'n perthyn i'r grŵp oedran hwn. Mae angen dadansoddiad pellach i adolygu gwybodaeth cyfweiliadau ymadael er mwyn nodi'r rhesymau dros adael yn yr ystodau oedran penodol hyn.
- Mae tua 29% o'r ymadawyr yn y grŵp oedran 16-34, 33% yn y grŵp oedran 35-49, 31% yn y grŵp oedran 50-64 a 7% yn y grŵp oedran 60 a hŷn.
- Mae'r diwrnodau hyfforddiant a gyrchwyd yn cyd-fynd yn fras â phroffil y gweithlu, ac eithrio'r grŵp oedran 60 a hŷn.
- Mewn perthynas ag oedran, cyflwynwyd mwyafrif y cwynion cyflogaeth gan y rhai rhwng 45 a 49 oed (23.15%). Mae hyn yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol, pan gafwyd mwyafrif y cwynion cyflogaeth gan y rhai a oedd o dan 35 oed (30.43%). Mae hefyd yn sylweddol uwch na phroffil y gweithlu, gan fod 13.5% o gyflogeion y Bwrdd Iechyd rhwng 45 a 49 oed. O'u cyfuno, cafwyd bod 37.03% o'r holl gŵynion cyflogaeth wedi'u cyflwyno gan y rhai rhwng 50 a 59 oed. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r llynedd (20.28%), ond nid yw mor uchel ag ydoedd yn 2017-18, pan gyflwynwyd 47% o'r cwynion cyflogaeth gan aelodau staff yn y grŵp oedran hwn.
- Mae'r cyflogeion hynny rhwng 45 a 49 oed hefyd yn cyfrif am y gyfran uchaf o achosion disgyblu yn ôl grŵp oedran (23 o achosion). Mae hyn wedi bron dyblu oddi ar y flwyddyn flaenorol (12 o achosion). Yn yr un modd, mae gweithdrefnau disgyblu ar gyfer y rhai 35 i 39 oed wedi mwy na dyblu, o wyth achos y llynedd i 17 o achosion eleni, tra bo nifer yr achosion ar gyfer y rhai 55 i 59 oed wedi mwy na threblu (pum achos i 17 o achosion). Gellir egluro hyn trwy gynnydd yn nifer yr achosion disgyblu ar gyfer y flwyddyn hon.

Nodau a chymau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol:

- Gwella'r ffordd yr ydym yn denu, recriwtio a chadw talent o amrywiaeth o grwpiau oedran.
- Mae angen dadansoddiad pellach i adolygu gwybodaeth cyfweiliadau ymadael er mwyn nodi'r rhesymau dros adael mewn ystodau oedran penodol nad ydynt yn cyd-fynd â phroffil y gweithlu.
- Sicrhau bod yna fynediad cydradd at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gyfer cyflogeion yn y grwpiau oedran hŷn.
- Hyrwyddo Polisi Ymddeol a Dychwelyd y Bwrdd Iechyd.

- Parhau i gyflwyno swyddi Prentisiaid.
- Cyflwyno hyfforddiant ar 'recriwtio seiliedig ar werthoedd' sy'n cynnwys canllawiau ar yr egwyddorion 'Gwahaniaethu o ran Oedran' a'r defnydd o eiriau gwahaniaethol mewn swydd-ddisgrifiadau a manylebau person.
- Nodi'r nodweddion gwaith sy'n bwysig i bobl 50 oed a throsodd, ac ymchwilio i'r camau gweithredu y gall y Bwrdd lechyd eu cymryd i ddenu a chadw gweithwyr hŷn.
- Nodi'r nodweddion gwaith sy'n bwysig i bobl 24 oed ac iau, ac ymchwilio i'r camau gweithredu y gall y Bwrdd lechyd eu cymryd i ddenu a chadw gweithwyr ifanc.

1.1 Cyfrif Pennau

	Cyfrif pennau	%
16 i 24	959	8.27%
25 i 29	1,198	10.34%
30 i 34	1,330	11.48%
35 i 39	1,238	10.69%
40 i 44	1,262	10.88%
45 i 49	1,564	13.50%
50 i 54	1,647	14.22%
55 i 59	1,402	12.10%
60 i 64	739	6.38%
65 i 69	178	1.54%
70 a throsodd	70	0.60%
Cyfanswm	11,596	100%

1.2 Dadansoddiad o'r Cyflogau

Grŵp Staff	<=20 oed	21-25	26-30	31-35	36-40	41-45
Technegol a Gwyddonol Proffesiynol Ychwanegol	£0	£29,363	£36,922	£37,344	£39,917	£39,603
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	£11,092	£18,265	£18,339	£19,329	£19,674	£19,703
Gweinyddol a Chlercol	£16,118	£18,435	£21,574	£23,708	£29,259	£30,086
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd	£0	£27,042	£30,921	£34,722	£38,185	£39,890
Ystadau a Gwasanaethau Ategol	£17,654	£17,732	£18,393	£19,546	£20,545	£19,273
Gwyddonwyr Gofal lechyd	£0	£26,070	£30,884	£33,962	£39,844	£38,137
Meddygol a Deintyddol	£0	£26,952	£33,289	£46,986	£66,670	£80,716
Wedi'u cofrestru'n Nyrsys ac yn Fydwagedd	£0	£25,335	£27,545	£30,272	£32,612	£33,790
Myfyrwyr	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cyfanswm	£13,974	£22,159	£25,584	£28,457	£32,122	£35,579

Grŵp Staff	46-50	51-55	56-60	61-65	66-70	>=71 oed	Cyfanswm
Technegol a Gwyddonol Proffesiynol Ychwanegol	£42,745	£44,878	£44,375	£43,363	£43,046	£37,340	£39,537
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	£20,497	£20,289	£20,412	£20,399	£20,160	£20,478	£19,443
Gweinyddol a Chlercol	£31,583	£28,957	£28,656	£25,361	£22,410	£24,420	£27,694
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	£39,598	£45,807	£42,814	£46,081	£42,402	£37,267	£37,528
Ystadau a Gwasanaethau Ategol	£19,590	£19,236	£20,028	£20,205	£19,533	£18,909	£19,478
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	£40,466	£41,754	£43,088	£40,520	£46,206	£0	£38,098
Meddygol a Deintyddol	£85,499	£90,048	£91,399	£92,694	£96,346	£94,909	£68,191
Wedi'u cofrestru'n Nyrsys ac yn Fydwagedd	£35,136	£37,462	£3,596	£36,030	£36,188	£64,723	£33,606
Myfyrwyr	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£18,067
Cyfanswm	£34,932	£34,233	£33,758	£35,049	£35,049	£41,984	£31,569

Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o'r cyflogau gan ddefnyddio'r cyflog blynyddol cymedrig yn sail, a'r ffigurau a ddangosir yw'r rhai ar gyfer mis Mawrth 2020.

1.3 Recriwtio

Categori Adrodd	Ceisiadau		Ar y Rhestr Fer		Cynigiwyd y Swydd	
	Cyfansymiau BIPHDd	% BIPHDd	Cyfansymiau BIPHDd	% BIPHDd	Cyfansymiau BIPHDd	% BIPHDd
Cyfanswm y ceisiadau yr adroddwyd arnynt	30,655	100.0%	10,287	100.0%	3,879	100%
20 oed ac iau	1,560	5.1%	645	6.3%	364	9.4%
20-24 oed	4,560	14.9%	1,412	13.7%	592	15.3%
25-29 oed	6,774	22.0%	1,687	16.4%	631	16.2%
30-34 oed	4,964	16.2%	1,424	13.8%	517	13.3%
35-39 oed	3,243	10.6%	1,116	10.8%	405	10.4%
40-44 oed	2,531	8.3%	1,006	9.8%	359	9.3%
45-49 oed	2,585	8.4%	1,077	10.5%	362	9.3%
50-54 oed	2,326	7.6%	988	9.6%	312	8.0%
55-59 oed	1,439	4.7%	646	6.3%	223	5.7
60-64 oed	585	1.9%	243	2.4%	92	2.4%
65-69 oed	77	0.3%	33	0.3%	17	0.4%
70+ oed	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Heb ddatgelu	11	0.0%	10	0.1%	5	0.1%

1.4 Ymadawyr

	Cyfrif pennau	%
Dan 25	86	8.95%
25 i 29	160	16.65%
30 i 34	81	8.43%
35 i 39	75	7.80%
40 i 44	73	7.60%
45 i 49	64	6.66%
50 i 54	94	9.78%
55 i 59	164	17.07%
60 i 64	127	13.22%
65 i 69	31	3.23%
70 a throsodd	6	0.62%
Cyfanswm	961	100%

1.5 Mynychu Hyfforddiant

	16-20	21-25	26-30	31-35	36-40	41-45	46-50	51-55	56-60	61-65	Dros 65	Cyfanswm
Wedi Mynychu/ Cwblhau Cyrsiau	2,549	6,874	8,173	7,350	6,569	7,212	8,295	8,024	6,841	2,943	728	65,558

1.6 Gweithdrefnau Cwynion Cyflogaeth

Cyfrif pennau BIPHDd yn ôl Oedran		
	Cyfrif pennau	%
Dan 35	19	17.59%
35-39	9	8.33%
40-44	8	7.41%
45-49	25	23.15%
50-55	21	19.44%
55-59	19	17.59%
60 a throsodd	7	6.48%
Cyfanswm	108	100%

1.7 Gweithdrefnau Disgyblu

Cyfrif pennau BIPHDd yn ôl Oedran		
	Cyfrif pennau	%
Dan 25	5	4.13%
25 i 29	12	9.92%
30 i 34	13	10.74%
35 i 39	17	14.05%
40 i 44	15	12.40%
45 i 49	23	19.01%
50 i 54	12	9.92%
55 i 59	17	14.05%
60 a throsodd	7	5.79%
Cyfanswm	121	100%

2.0 ANABLEDD

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r casgliadau y daethpwyd iddynt wrth ddadansoddi ystadegau'n ymwneud ag anabledd, ynghyd ag amlinelliad o'r nodau bwriadedig a'r camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Casgliadau yn dilyn dadansoddi'r data:

- O gymharu â 31 Mawrth 2019, roedd canran y staff a oedd yn nodi nad oeddent yn anabl wedi cynyddu 4.59% erbyn 31 Mawrth 2020.
- Mae canran y staff sy'n nodi bod ganddynt anabledd hefyd wedi cynyddu 1.01% yn y cyfnod adrodd. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 2.68% o'r staff yn nodi bod ganddynt anabledd.
- Mae canran y staff yr oedd yn well ganddynt beidio ag ateb wedi cynyddu 0.01%.
- Mae nifer y staff nad yw eu cofnodion wedi'u cofnodi ar y Cofnod Staff Electronig wedi disgyn 5.61%.
- Mae gan 23% o boblogaeth Hywel Dda salwch hirdymor neu anabledd sy'n cyfyngu arnynt. Mae hyn yn cymharu â 2.68% o'r gweithlu. Nid yw 29% o'r gweithlu wedi'u cofnodi ar y Cofnod Staff Electronig, sy'n golygu ei bod yn fwy anodd dod i gasgliadau ynghylch y data.
- Mae cyflog blynyddol cyfartalog y rheiny y cofnodwyd nad ydynt yn anabl yn £30,401, o gymharu â £27,263 ar gyfer y rhai sy'n anabl.
- O blith cyfanswm o 30,655 o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfrer swyddi gwag, roedd 3.5% o'r ymgeiswyr wedi datgan bod ganddynt anabledd. Cynigiwyd cyflogaeth i 3.2% ohonynt. Mae hyn yn dangos bod nifer o'r ymgeiswyr a nododd eu bod yn anabl wedi cael cynnig swydd. Dewisodd 1.6% beidio â datgelu a oedd ganddynt anabledd ai peidio wrth wneud cais.

- Roedd gan 2.08% o'r rhai a ymadawodd â'r Bwrdd Iechyd anabledd, o gymharu â 2.68% o'r gweithlu a oedd yn nodi bod ganddynt anabledd. Mae hyn yn dangos bod y gyfran o gyflogeion anabl sy'n gadael y Bwrdd Iechyd yn is na chanran y cyflogeion anabl sydd yn y Bwrdd Iechyd.
- Roedd 0.01% o'r gweithlu a nododd fod ganddynt anabledd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi, o gymharu â 2.68% o'r gweithlu a oedd wedi nodi bod ganddynt anabledd.
- Mae staff ag anabledd yn cyfrif am 5.56% o'r holl gŵynion cyflogaeth. Mae hyn yn gynydd sylweddol oddi ar y flwyddyn flaenorol (1.45%), ac mae'n fwy na dwbl o gymharu â'r gweithlu sy'n nodi bod ganddynt anabledd (2.68%).
- Er bod nifer y staff sydd ag anabledd ac sy'n destun gweithdrefnau disgyblu wedi cynyddu o un achos i dri eleni, mae'r canran (2.48%) yn parhau i gyd-fynd â phroffil y Bwrdd Iechyd (2.68%).

Nodau a chymau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol:

- Cyflawni bathodyn Lefel 2 "Hyderus o ran Anabledd", a fydd yn hyrwyddo amgylchedd gweithio cynhwysol ac yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod y sgiliau a'r rhinweddau y gall pob unigol yn eu cyfrannu i'r Bwrdd Iechyd.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn denu, recriwtio a chadw gweithwyr anabl trwy ofyn am gyngor arbenigol ar arfer gorau.
- Sicrhau bod yna fynediad cydradd at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gyfer cyflogeion sy'n nodi bod ganddynt anabledd, a hynny er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer camu ymlaen yn eu gyrfa yn y Bwrdd Iechyd, gan felly gynyddu, o bosibl, amrywiaeth ein staff ar y lefel reoli a'r lefel weithredol.
- Dechrau gwaith ar "gronfeydd talent amgen", gan sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried y rhwystrau y mae nifer o bobl yn eu hwynebu wrth ymuno â neu ddychwelyd at y byd gwaith.
- Creu 'swyddi â thâl' ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn dilyn cefnogaeth y Bwrdd i'r weledigaeth a nodir yn "Fy Siarter – Mae pobl ag anableddau am gael yr un pethau ag y mae pawb am eu cael".
- Llunio adroddiad ar y Bwlch Cyflog Anabledd i nodi gwahaniaethau a'n helpu i weithio tuag at eu lliniaru neu eu dileu.
- Lleihau % y cofnodion anhysbys/amhenodol ar y Cofnod Staff Electronig.
- Lleihau % y staff sy'n dewis peidio â datgelu gwybodaeth ar y Cofnod Staff Electronig.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddi rheolwyr ar 'reoli presenoldeb yn y gwaith' sy'n cynnwys canllawiau ar sicrhau addasiadau rhesymol ar gyfer cyflogeion anabl a'r rheiny a allai ddatblygu anabledd yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, a hynny er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn, a chadw staff mewn cyflogaeth am gyhyd ag y byddent yn dymuno aros.

- Cyflwyno hyfforddiant ar 'recriwtio seiliedig ar werthoedd' sy'n cynnwys canllawiau ar yr egwyddorion 'Hyderus o ran Anabledd' a'r defnydd o eiriau gwahaniaethol mewn swydd-ddisgrifiadau a manylebau person.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddi ar Ymwybyddiaeth o Anabledd sy'n cael eu rhedeg gan bobl â phrofiadau bywyd, ac sy'n amlygu profiadau staff yn benodol. Nod yr hyfforddiant hwn fyddai galluogi'r staff ar bob lefel i ddeall y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn y gwaith, a'r modd y gallant gyfrannu at greu amgylchedd gweithio cynhwysol ar gyfer cyd-weithwyr anabl.
- Datblygu portffolio o brofiadau cadarnhaol staff, wedi'i ddarparu gan staff anabl, i'w ddefnyddio mewn ymgyrchoedd recriwtio i annog rhagor o geisiadau gan bobl anabl.

2.1 Cyfrif Pennau

	Cyfrif pennau	%
Anabl	310	2.68%
Ddim yn Anabl	7,942	68.54%
Yn well ganddynt beidio ag ateb	2	0.02%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	3,332	28.76%
Cyfanswm	11,586	100%

2.2 Cyflog yn ôl Grŵp Staff

Grŵp Staff	Ddim yn Anabl	Yn well ganddynt beidio ag ateb	Heb ei Gofnodi ar yr ESR	√	Cyfanswm
Technegol a Gwyddonol Proffesiynol Ychwanegol	£39,393	£0	£39,596	£39,691	£39,537
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	£18,824	£0	£20,586	£18,970	£19,443
Gweinyddol a Chlercol	£26,975	£18,813	£29,621	£24,206	£27,694
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	£35,854	£0	£37,695	£35,210	£37,528
Ystadau a Gwasanaethau Ategol	£18,872	£0	£19,278	£18,930	£19,478
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	£35,573	£0	£38,702	£30,892	£38,098
Meddygol a Deintyddol	£60,258	£0	£82,034	£48,145	£68,191
Wedi'u cofrestru'n Nyrsys ac yn Fydwagedd	£32,653	£0	£35,983	£30,934	£33,606
Myfyrwyr	£18,067	£0	£0	£0	£18,067
Cyfanswm	£30,401	£18,813	£33,791	£27,263	£31,569

Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o'r cyflogau gan ddefnyddio'r cyflog blynyddol cymedrig yn sail, a'r ffigurau a ddangosir yw'r rhai ar gyfer mis Mawrth 2020.

2.3 Recriwtio

Categori Adrodd	Rhaglenni		Ar y Rhestr Fer		Cynigiwyd y Swydd	
	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Cyfanswm y ceisiadau yr adroddwyd arnynt	30,655	100.0%	10,287	100.0%	3,879	100%
Anabledd: √	1067	3.5%	394	3.8%	125	3.2%
Anabledd: X	29103	94.9%	9,669	94.0%	3,635	93.7%
Anabledd: Heb ddatgelu	485	1.6%	224	2.2%	119	3.1%

2.4 Ymadawyr

	Cyfrif pennau	%
Anabl	20	2.08%
Ddim yn Anabl	626	65.15%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	315	32.78%
Cyfanswm	961	100%

2.5 Mynychu Hyfforddiant

	Anabl	Ddim yn Anabl	Heb ei Gofnodi ar yr ESR	Yn well ganddynt beidio ag ateb	Cyfanswm
Wedi Mynychu/Cwblhau Cyrsiau	777	32,423	33,350	8	65,558

2.6 Staff sy'n Gysylltiedig â Chwyn Gyflogaeth

	Cyfrif pennau	%
√	6	5.56%
X	58	53.70%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	44	40.74%
Cyfanswm	108	100%

2.7 Staff sy'n Gysylltiedig â Gweithdrefnau Disgyblu

	Cyfrif pennau	%
√	3	2.61%
X	80	66.21%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	38	31.40%
Cyfanswm	121	100%

3.0

ETHNIGRWYDD

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r casgliadau y daethpwyd iddynt wrth ddadansoddi ystadegau'n ymwneud â hil, ynghyd ag amlinelliad o'r nodau bwriadedig a'r camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Casgliadau yn dilyn dadansoddi'r data:

- O gymharu â 31 Mawrth 2019, roedd canran y staff a oedd yn nodi eu bod yn Wyn wedi cynyddu 1.98% erbyn 31 Mawrth 2020.
- Mae canran y staff sy'n arddel hunaniaeth Ddu neu Ddu Prydeinig wedi cynyddu 0.23% rhwng y cyfnodau adrodd.
- Mae canran y staff sy'n arddel hunaniaeth Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig wedi gostwng 0.23%.
- Mae canran y staff sy'n arddel hunaniaeth Ethnig Cymysg wedi gostwng 0.01% ar gyfer yr un cyfnod.
- Mae canran y staff sy'n arddel hunaniaeth Unrhyw Grŵp Ethnig Arall wedi gostwng 0.04%.
- Mae nifer y staff nad yw eu cofnodion wedi'u cofnodi ar y Cofnod Staff Electronig wedi disgyn 1.93%. Nid yw 819 o'r cyflogeion wedi cofnodi eu hethnigrwydd, sy'n golygu bod dadansoddiadau a chymariaethau data yn llai cywir.
- Daw tua 98% o staff Hywel Dda o gefndir gwyn, a daw 2% o gefndiroedd eraill. Mae 86% o'n cyflogeion wedi cofnodi bod eu hethnigrwydd yn Wyn.
- Mae'r cyflog blynyddol cymedrig yn uwch ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill o gymharu â Gwyn. Y rheswm dros hyn yw bod 51% o'r staff (395 o'r 777) yn y grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill ar y graddfeydd cyflog eraill/meddygol o gymharu â 5% o'r staff Gwyn. Mae 46% o'r staff gwyn ar fandiau 2 i 4 o gymharu ag 20% o'r staff mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill.
- Cynigir cyflogaeth i gyfran uwch o'r ymgeiswyr sy'n Wyn o gymharu â % yr ymgeiswyr sy'n gwneud cais o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill.

- Roedd cyfran fymryn yn uwch o gyflogeion sydd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill wedi gadael cyflogaeth y Bwrdd Iechyd o gymharu â phroffil y gweithlu.
- Mae cyfran y cyflogeion sy'n Wyn ac a fynychodd hyfforddiant (84%) yn debyg iawn i broffil y gweithlu (86%).
- Am y chweched flwyddyn yn olynol yn achos yr adroddiad hwn, mae ethnigrwydd Gwyn yn parhau i gyfrif am y gyfran fwyaf o gyflogeion sy'n cyflwyno cwynion cyflogaeth yn y Bwrdd Iechyd (79.62%). Mae hyn yn ostyngiad sylweddol oddi ar y flwyddyn flaenorol (91.30%), ac yn is na phroffil y Bwrdd Iechyd, sef 86.22%. Mae aelodau Asiaidd o'r staff yn cyfrif am 5.56% o'r holl gwynion cyflogaeth a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd, sydd fymryn yn uwch na phroffil y Bwrdd Iechyd o 3.92%. Nid yw hyn yn syndod gan mai dyma'r ail grŵp ethnig mwyaf ymhlith cyflogeion Hywel Dda.
- Mae ethnigrwydd gwyn yn cyfrif am 81.82% o'r rheiny a oedd yn destun gweithdrefnau disgyblu, sy'n debyg i ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 82.56%. Mae staff Du, Asiaidd ac o gefndir ethnig Cymysg yn cyfrif am chwe achos disgyblu eleni. Yn flaenorol, nid oedd unrhyw unigolion o'r grwpiau ethnig hyn yn rhan o weithdrefnau disgyblu.

Nodau a chymau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol:

- Trwy Grŵp Cynghori BAME sy'n adrodd i'r Bwrdd, datblygu rhaglen waith i sicrhau bod staff BAME yn cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Bwrdd Iechyd ac i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i fod yn gyflogwr sy'n cynnwys BAME. Sicrhau bod gwaith y Grŵp yn cael ei hyrwyddo trwy'r fewnwyd.
- Annog pobl i gymryd rhan yng ngwaith y Grŵp Cynghori trwy recriwtio aelodau newydd ac anelu at sicrhau cynrychiolaeth gan ein holl grwpiau staff a phob sir.
- Cyflwyno cynllun 'bydi' newydd ar gyfer staff sy'n cyrraedd o dramor i weithio i'r Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau y tynnir sylw'r Grŵp Cynghori at ddadansoddiadau o ddata arolygon mewn perthynas â staff BAME, a hynny ar gyfer adolygu a llunio cynlluniau gweithredu.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn denu, recriwtio a chadw unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig i swyddi a graddau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sicrhau bod yna fynediad cydradd at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gyfer cyflogeion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig er mwyn helpu o ran camu ymlaen yn eu gyrfa yn y Bwrdd Iechyd a chynyddu amrywiaeth y staff BAME sydd mewn swyddi rheoli a gweithredol.
- Llunio adroddiad ar y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd i nodi gwahaniaethau a'n helpu i weithio tuag at eu lliniaru neu eu dileu.
- Lleihau % y cofnodion anhysbys/amhenodol ar y Cofnod Staff Electronig.
- Lleihau % y staff sy'n dewis peidio â datgelu gwybodaeth ar y Cofnod Staff Electronig.

- Cyflwyno hyfforddiant ar 'recriwtio seiliedig ar werthoedd' sy'n cynnwys canllawiau ar yr egwyddorion cydraddoldeb a'r defnydd o eiriau gwahaniaethol mewn swydd-ddisgrifiadau a manylebau person.
- Cyflwyno hyfforddiant ar Gymhwysedd Diwylliannol BAME i'r holl staff ar bob lefel, a hynny gan bobl â phrofiadau bywyd.

3.1 Cyfrif Pennau

Cyfrif pennau BIPHDd yn ôl Ethnigrwydd		
	Cyfrif pennau	%
Gwyn	9,990	86.22%
Du neu Ddu Prydeinig	105	0.91%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	454	3.92%
Cymysg	56	0.48%
Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	162	1.40%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	819	7.07%
Cyfanswm	11,586	100%

3.2 Dadansoddiad o'r Cyflogau

Grŵp Staff	Gwyn	Du neu Ddu Prydeinig	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	Cymysg	Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	Heb ei Gofnodi ar yr ESR	Cyfanswm
Technegol a Gwyddonol Proffesiynol Ychwanegol	£39,726	£0	£27,527	£21,819	£36,532	£38,827	£39,537
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	£18,960	£17,884	£18,365	£16,607	£18,912	£20,945	£19,443
Gweinyddol a Chlercol	£27,603	£20,639	£23,169	£30,891	£20,520	£25,386	£27,694
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	£37,091	£31,112	£38,993	£54,394	£34,839	£44,305	£37,528
Ystadau a Gwasanaethau Ategol	£19,558	£17,652	£18,054	£18,194	£18,278	£19,595	£19,478
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	£38,140	£30,962	£33,112	£30,401	£32,525	£43,061	£38,098
Meddygol a Deintyddol	£71,951	£57,159	£69,697	£60,387	£69,943	£67,806	£68,191
Wedi'u cofrestru'n Nyrsys ac yn Fydwragedd	£33,469	£29,709	£30,635	£32,059	£31,227	£38,166	£33,606
Myfyrwyr	£18,067	£0	£0	£0	£0	£0	£18,067
Cyfanswm	£29,887	£45,536	£50,828	£35,431	£43,170	£33,972	£31,569

Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o'r cyflogau gan ddefnyddio'r cyflog blyneddol cymedrig yn sail, a'r ffigurau a ddangosir yw'r rhai ar gyfer mis Mawrth 2020.

3.3 Dadansoddiad yn ôl Ceisiadau

	Categori Adrodd	Rhaglenni		Ar y Rhestr Fer		Cynigiwyd y Swydd	
		Cyfansymiau BIPHDd	% BIPHDd	Cyfansymiau BIPHDd	% BIPHDd	Cyfansymiau BIPHDd	% BIPHDd
	Cyfanswm y ceisiadau yr adroddwyd arnynt	30,655	100.0%	10,287	100.0%	3,879	100%
Ethnigrwydd	GWYN – Prydeinig	22,019	71.9%	8,587	83.6%	3,392	87.5%
	GWYN – Gwyddelig	105	0.3%	42	0.4%	17	0.4%
	Gwyn – unrhyw gefndir gwyn arall	1,186	3.9%	317	3.1%	99	2.6%
	ASIAIDD neu ASIAIDD PRYDEINIG – Indiaidd	1,220	4.0%	237	2.3%	52	1.3%
	ASIAIDD neu ASIAIDD PRYDEINIG – Pacistanaidd	1,019	3.3%	161	1.6%	36	0.9%
	ASIAIDD neu ASIAIDD PRYDEINIG – Bangladeshaidd	281	0.9%	50	0.5%	10	0.3%
	ASIAIDD neu ASIAIDD PRYDEINIG – unrhyw gefndir Asiaidd arall	605	2.0%	124	1.2%	38	1.0%
	CYMYSG – Gwyn a Du Caribiaidd	63	0.2%	15	0.1%	0	0.0%
	CYMYSG – Gwyn a Du Affricanaidd	520	1.7%	76	0.7%	17	0.4%
	CYMYSG – Gwyn ac Asiaidd	68	0.2%	14	0.1%	6	0.2%
	CYMYSG – unrhyw gefndir Cymysg arall	171	0.6%	31	0.3%	10	0.3%
	DU neu DDU PRYDEINIG – Caribiaidd	68	0.2%	23	0.2%	10	0.3%
	DU neu DDU PRYDEINIG – Affricanaidd	1,746	5.7	234	2.3%	53	1.4%
	DU neu DDU PRYDEINIG – unrhyw gefndir Du arall	70	0.2%	11	0.1%	0	0.0%
	GRŴP ETHNIG ARALL – Tsieineaidd	75	0.2%	14	0.1%	8	0.2%
	GRŴP ETHNIG ARALL – unrhyw grŵp ethnig arall	1,002	3.3%	176	1.7%	31	0.8%
	Heb ddatgelu	437	1.4%	175	1.7%	95	2.4%

3.4 Dadansoddiad yn ôl Ymadawyr

Ymadawyr BIPHDd yn ôl Ethnigrwydd		
	Cyfrif pennau	%
Gwyn	709	73.78%
Du neu Ddu Prydeinig	15	1.56%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	80	8.32%
Cymysg	9	0.94%

Tsieineaidd	3	0.31%
Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	22	2.29%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	123	12.80%
Cyfanswm	961	100%

3.5 Mynychu Hyfforddiant

	Gwyn	Cymysg – Gwyn a Du Caribraidd	Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	Cymysg – unrhyw gefndir Cymysg arall	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Indiaidd	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – unrhyw gefndir Asiaidd arall	Du neu Ddu Prydeinig – Caribraidd	Du neu Ddu Prydeinig – Affricanaidd	Tsieineaidd	Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	Heb ei Gofnodi ar yr ESR	Cyfanswm
Wedi Mynychu/ Cwblhau Cyrsiau	55,127	41	121	92	73	1,582	491	57	694	128	610	91	1,195	4,815	65,558

3.6 Gweithdrefnau Cwynion Cyflogaeth

Cyfrif pennau BIPHDd yn ôl Ethnigrwydd		
	Cyfrif pennau	%
Gwyn	86	79.62%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	6	5.56%
Du neu Ddu Prydeinig	1	0.93%
Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	2	1.85%
Heb ei Gofnodi ar yr ESR	13	12.04%
Cyfanswm	108	100%

3.7 Gweithdrefnau Disgyblu

Cyfrif pennau BIPHDd yn ôl Ethnigrwydd		
	Cyfrif pennau	%
Gwyn	99	81.82%
Du neu Ddu Prydeinig	1	0.83%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	4	3.31%
Cymysg	1	0.83%
Unrhyw Grŵp Ethnig Arall	7	5.79%

Heb ei Gofnodi ar yr ESR	9	7.44%
Cyfanswm	121	100%

4.0

RHYWEDD

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r casgliadau y daethpwyd iddynt wrth ddadansoddi ystadegau'n ymwneud â rhywedd, ynghyd ag amlinelliad o'r nodau bwriadedig a'r camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Casgliadau yn dilyn dadansoddi'r data:

- O gymharu â 31 Mawrth 2019, roedd canran y cyflogeion a oedd yn arddel hunaniaeth wrywaidd wedi cynyddu 0.19% erbyn 31 Mawrth 2020.
- Mae canran y staff sy'n arddel hunaniaeth fenywaidd wedi gostwng 0.19% ar gyfer y cyfnod adrodd.
- Mae tua 50% o boblogaeth Hywel Dda yn wrywaidd a 50% yn fenywaidd. Mae hyn yn wahanol iawn i broffil y Bwrdd Iechyd, sef 78% o'r gweithlu yn fenywaidd a 22% yn wrywaidd. Fodd bynnag, mae proffil y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol, sef bod y rhan fwyaf o weithlu'r GIG yn fenywaidd.
- Mae gan tua 80% o'r benywod gytundeb parhaol, o gymharu ag 20% o'r gwrywod. Mae hyn yn unol â phroffil y gweithlu.
- Mae 48% o'r staff yn rhan-amser; mae 87% o'r staff sy'n gweithio'n rhan-amser yn fenywaidd, o gymharu ag 13% o wrywod.
- Cyflog cyfartalog cymedrig y gwrywod yw £38,006, o gymharu â £29,594 ar gyfer benywod. Mae'r amrywiadau mwyaf sylweddol yn bodoli yn y grwpiau staff Meddygol a Deintyddol, a Gweinyddol a Chlercol.
- Ymhlith cyfanswm o 30,655 o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer swyddi gwag, roedd 32.6% gan ymgeiswyr gwrywaidd, o gymharu â 67.2% gan fenywod. Cynigiwyd cyflogaeth i 27.1% o'r gwrywod o gymharu â 72.5% o'r benywod. Mae hyn yn dangos, mewn perthynas â'r priod ganran o geisiadau, fod swyddi wedi cael eu cynnig yn anghymesur i fenywod o gymharu â gwrywod.
- Roedd 71.28% o'r rheiny a adawodd y Bwrdd Iechyd yn fenywaidd o gymharu â'r ffaith bod 78% o'r gweithlu yn fenywaidd. Roedd 28.72% o'r rheiny a adawodd yn wrywaidd o gymharu â'r ffaith bod 22% o'r gweithlu yn wrywaidd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â phroffil y gweithlu.
- Roedd 79% o'r rheiny a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn fenywaidd o gymharu ag 21% a oedd yn wrywaidd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â phroffil y gweithlu.

- Y grŵp staff Meddygol a Deintyddol yw'r unig grŵp staff lle mae yna fwy o gyflogeion gwrywaidd na benywaidd.
- Mae nifer y gwrywod a oedd yn rhan o gŵynion cyflogaeth yn parhau i fod yn anghymesur uwch na phroffil y Bwrdd Iechyd, a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae gwrywod yn ffurfio 22.3% o'r gweithlu, ond roedd nifer y gwrywod a gymerodd ran mewn cwyn cyflogaeth yn cynrychioli 31.48% o'r holl achosion. O ganlyniad, roedd nifer y benywod a oedd yn ymwneud â chŵyn cyflogaeth, sef 68.52%, yn parhau'n is na phroffil y Bwrdd Iechyd, sef 77.7%.
- Mae'r rhan y mae gwrywod yn ei chwarae mewn gweithdrefnau cwynion cyflogaeth wedi cynyddu'n sylweddol i 43.8% o 20.93% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn anghymesur uwch o gymharu â gweithlu'r Bwrdd Iechyd, sy'n cynnwys 22.3% o wrywod, ac felly mae wedi bron dyblu.

Nodau a chymau gweithredu cadarnhaol ar gyfer y dyfodol:

